

## Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 5 Tachwedd 2021 – 3 Ionawr 2022

Rhif	Enw a Manylion Cyswllt	Disgrifiad o'r Ohebiaeth
1.	<p><b>Gan:</b> <b>Ymateb PACEY Cymru</b></p> <p><b>Anfonwyd:</b> 03 Rhagryf 2021 16:26</p>	<p><b>Ymateb PACEY Cymru</b></p> <p><b>Deilliant 1</b> Mae PACEY Cymru yn cytuno'n gryf ei bod yn bwysig cryfhau ac ehangu darpariaeth gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n bwysig cydnabod fod gan y penderfyniadau a wnaiff teuluoedd am iaith yng nghyswllt gofal plant cyn addysg gynnar hefyd rôl bwysig wrth gefnogi'r daith tuag at addysg ddwyieithog/cyfrwng Cymraeg. Mae'r daith hon yn dechrau cyn addysg nas cynhelir a gyllidir ac mae'n cynnwys ystod ehangach o ddarpariaeth tebyg i ofalwyr plant cofrestredig.</p> <p>Mae PACEY Cymru yn croesawu'r hyfforddiant sydd ar gael ar gyfer gofal plant, blynyddoedd chwarae a safleoedd chwarae ac yn gweithio gyda partneriaid Cwllwm i hyrwyddo hyfforddiant Camau drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gofal plant, blynyddoedd cynnar a safleoedd chwarae. Mae peth gwybodaeth ar ein gwefan am waith PACEY Cymru i gefnogi <a href="#">datblygu'r Gymraeg</a> a hyrwyddo Camau, byddem yn hapus i roi mwy o wybodaeth am ein gwaith yn gysylltiedig â hyn.</p> <p>Mae PACEY Cymru yn gweithio ar hyn o bryd gydag awdurdodau lleol a phartneriaid i hyrwyddo gofal plant fel gyrfarfa ac i gefnogi recriwtio i'r sector, mae mwy o wybodaeth am hyn ar ein gwefan yn <a href="#">Awdurdodau Lleol yng Nghymru</a>.</p> <p><b>Deilliant 3</b> Mae PACEY Cymru yn deall fod y prif ystyriaethau o fewn y deilliant hwn yn ymwneud ag addysg a gynhelir, fodd bynnag mae rhai o'r negeseuon allweddol yn berthnasol i gefnogi'r rhai sy'n gweithio mewn gofal plant, blynyddoedd cynnar a chwarae. Er enghraifft, pwysigrwydd cynyddu sgiliau'r gweithlu, a amlygir yn ein hymateb dan deilliant 1. Mae hyn ar gael drwy Camau ar gyfer y sector gofal plant, blynyddoedd cynnar a chwarae. Hefyd, lle mae cyfeiriadau at bwysigrwydd cysylltiadau cyfathrebu da rhwng ysgolion, mae hyn yr un mor bwysig i gefnogi'r pontio cynharach rhwng gofal plant a safleoedd blynyddoedd cynnar a rhwng safleoedd a ysgolion, gall fod yn fuddiol cynnwys y pontio hyn naill ai o fewn y deilliant hwn neu ei gynnwys o fewn deilliant 1.</p> <p><b>Deilliant 4</b> Mae PACEY Cymru yn croesawu cydnabyddiaeth pwysigrwydd gweithio gydag ysgolion a cholegau i gefnogi hygyrchedd cyrsiau Cymraeg a dwyieithog a fydd yn rhoi cefnogaeth bellach i strategaeth Cymraeg 2050. Er enghraifft, gallai argaeledd cymwysterau gofal plant a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog o fewn yr ardal leol helpu i fynd i'r afael â'r angen am fwy o siaradwyr Cymraeg o fewn y sector gofal plant, blynyddoedd cynnar a chwarae, a allai yn ei dro gefnogi amcanion deilliant 1.</p>

2.

**Mudiad  
Meithrin**  
17.12.21

**Ymateb Mudiad Meithrin i Gynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg 2022-2032**  
**Cyngor Sir Blaenau Gwent**

Gwerthfawroga Mudiad Meithrin y cyfle i ymateb i ymgynghoriad Cyngor Sir Blaenau Gwent ar Gynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg 2022-2027

Gweledigaeth Mudiad Meithrin yw dylai bob plentyn yng Nghymru gael y cyfle i chwarae, dysgu a thyfu trwy gyfrwng y Gymraeg. Ble bynnag mae 'na blant bach yng Nghymru, yna dylai Mudiad Meithrin (ac felly'r Gymraeg) hefyd fod yn bresennol.

Rydym wedi myfyrio ar y Cynllun Addysg a pharatowyd gan Gyngor Sir Blaenau Gwent am y deng mlynedd nesaf (2022-2032) a hoffem wneud y sylwadau canlynol:

1. Rydym yn cytuno â'ch amcanion ac rydym am eich cefnogi i gyflawni'r rhain.
2. Rydym yn gwerthfawrogi'r gwaith a wnaed yn ystod y cynllun diwethaf mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu cynllun cyfathrebu marchnata cryf ac edrychwn ymlaen at barhau â'r gwaith hwn.
3. Rydym yn croesawu'r cyfle i weithio gyda chi ymhellach i ddatblygu lleoliadau gofal plant, Cylchoedd meithrin a Ti a Fi, ledled Blaenau Gwent sy'n gyfleus i deuluoedd ac yn eu cymuned leol i sicrhau bod gofal plant cyfrwng Cymraeg yn hygyrch i bawb.
4. Mae'n werth nodi yma bwysigrwydd gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol a'r Ymwelwyr Iechyd yn ogystal â swyddogion sydd â chysylltiad uniongyrchol â theuluoedd.

**Deilliant 1**

- Diolch am ddarparu data manwl gyda sefyllfa bresennol y lleoedd gofal plant a meithrin sydd ar gael ym Mlaenau Gwent.
- Byddai'n ddefnyddiol egluro ystyr y term lleoliad gofal plant dwyieithog fel bod rhieni'n glir pan fyddant yn gwneud dewis beth mae hyn yn ei olygu.
- Er mwyn helpu i ddarparu cyfleoedd i deuluoedd allu dewis gofal plant cyfrwng Cymraeg yn agos at eu cartref, mae angen ystyried darparu lleoedd Dechrau'n Deg Cyfrwng Cymraeg ym mhob rhan o'r sir, yn enwedig os oes sesiynau bore a phrynhawn yn rhedeg mewn lleoliad lle gallai un o'r sesiynau hyn fod yn un Cyfrwng Cymraeg neu fabwysiadu'r model a sefydlwyd yn y sir drwy gefnogi grwpiau drwy brosiect Croesi'r Bont.
- Rydym yn falch bod ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg yn agor yn Nhredegar gan bod Mudiad Meithrin gyda cynlluniau i ddatblygu Cylch Meithrin newydd drwy Brosiect Sefydlu a Llwyddo Llywodraeth Cymru i ennyn diddordeb cyn i'r ysgol agor. Bydd plant o'r cylch meithrin yn gallu bwydo'n uniongyrchol i'r ysgol.
- Rydym yn croesawu'r cyfle i weithio gyda chi i sefydlu'r 2 leoliad gofal plant newydd a gynlluniwyd.
- Mae'n anodd/broblemus i gynnwys cyfanswm y llefydd mewn lleoliadau nas cynhelir a Dechrau'n Deg yn rhan o'r cyfanswm llefydd sydd ar gael i blant oed meithrin, gan fydd canran o'r rhain yn cael eu llenwi gan Dechrau'n Deg neu blant sy'n talu ffioedd i fynychu. Byddai'n werth ystyried cynnwys eglurhad.
- Mudiad Meithrin yn croesawu'r cyfleoedd i weithio gyda'r awdurdod lleol a phartneriaid eraill ar waith hyrwyddo a byddai'n hapus i rannu gwaith a wnaed eisoes drwy siarad â rhieni Podlediadau 'Baby Steps to Welsh' yn ogystal ag adnoddau eraill fel y fideo 'Beth yw Cylch Meithrin? Beth yw Cylch Meithrin?' ac adnoddau ar gael ar wefan Mudiad Meithrin a sianel You Tube. Byddai hefyd yn fuddiol hyrwyddo'r gwaith a wneir drwy Glwb Cwtsh (Tudalen 28 y ddogfen) a Chlwb Cylch (Tudalen 28 y ddogfen).
- Mae Mudiad Meithrin yn credu bod y gwaith a wneir gyda rhieni drwy ein grwpiau Ti a Fi yn bwysig iawn. Rydym yn croesawu'r cyfleoedd i weithio gyda'r awdurdod lleol i ddatblygu Grwpiau Ti a Fi a byddem yn croesawu unrhyw gyllid sydd ar gael i gefnogi'r gwaith hwn. Er mwyn helpu i gyflawni'r targedau ar gyfer cyfraddau pontio, bydd dadansoddiad pellach o

ddata Mudiad Meithrin yn fuddiol i ddeall y rhesymau dros y cyfraddau pontio o Gylchoedd meithrin i Ysgolion Cyfrwng Cymraeg a'r heriau sy'n wynebu rhieni.

#### **Deilliant 2**

- Nid oes cynllun clir ar gyfer datblygu unrhyw ysgolion pellach, yr hyn a wyddom o brofiad yw bod angen i'r ysgolion fod yn gyfleus i deuluoedd ac yn eu cymuned leol i sicrhau bod Addysg cyfrwng Cymraeg yn hygyrch i bawb. Gwyddom nad yw Addysg Cyfrwng Cymraeg yn cael ei ystyried gan deuluoedd pan fydd yn rhaid iddynt roi plant ifanc ar fysiau.
- Unwaith y bydd yr ysgol ar agor yn Nhredgar, mae angen ystyried galluogi plant hŷn i drosglwyddo i'r ysgol. Falle fydd teuluoedd heb anfon eu plant ar y bws i Bro Helyg am eu bod yn teimlo ei bod yn rhy bell yn awr yn ailystyried Addysg Cyfrwng Cymraeg oherwydd bod yr ysgol ar garreg eu drws.

#### **Deilliant 3**

- Mae'n braf nodi bod ysgol uwchradd ranbarthol yn cael ei hystyried ar Blaenau'r Cwm a fydd yn helpu i ysgogi'r galw gyda'r addysg uwchradd yn fwy lleol.

#### **Deilliant 5**

- Mae Deilliant 5 yn nodi'r gwaith a wneir gan Mudiad Meithrin wrth ymgysylltu â rhieni cyn i'r plentyn gychwyn yn yr ysgol, a theimlwn y byddai'n well gosod y wybodaeth hon efo Deilliant 1, sy'n cyfeirio at y gwaith a wneir ar gyfer y grŵp oedran yma.

#### **Deilliant 6**

- Rydym yn awyddus i weld cyfeiriad at y Blynyddoedd Cynnar o dan y deilliant hwn i alluogi plant, waeth fo'u galluoedd, i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Os nad yw'r gefnogaeth ar gael i blant ar y pwynt hwn, ni aent ymlaen i addysg cyfrwng Cymraeg.




#### **Deilliant 7**

- Mae'n werth nodi diffyg gweithwyr Gofal Plant yn y sector Blynyddoedd Cynnar yn y Deilliant hwn. Gyda'r weledigaeth i agor cylchoedd Meithrin pellach yr her y byddwn yn ei hwynebu yw dod o hyd i staff cymwys sy'n siarad Cymraeg. Byddem yn hapus i weithio mewn partneriaeth ar unrhyw ymgyrchoedd i recriwtio staff a hyrwyddo'r gwaith.
- Ar hyn o bryd mae cynllun Cam wrth Gam i Ysgolion Mudiad Meithrin yn cefnogi disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gyfun Gwynllyw.
- Mae Cynllun Prentisiaeth Mudiad Meithrin hefyd ar gael i roi cyfle i unigolion ymgymryd â chymhwyster Gofal Plant er nad oes neb yn manteisio arno ym Mlaenau Gwent ar hyn o bryd.
- Nod cynllun Academi Mudiad Merithrin yw cynnig ystod eang o gyfleoedd datblygu a hyfforddi i'r holl staff a gwirfoddolwyr sy'n rhan o gymuned Mudiad Meithrin. Darperir yr hyfforddiant hwn mewn gwahanol fformatau, gan gyfuno cyswllt traddodiadol wyneb yn wyneb ac ar-lein, gan alluogi dysgwyr i astudio ar adegau sy'n gyfleus iddynt.
- Mae Croesi'r Bont hefyd yn cyflwyno methodoleg trochi iaith o fewn Cylchoedd Meithrin ac yn sicrhau pontio ieithyddol o Gylchoedd i ysgolion cyfrwng Cymraeg.


Nia Parker

**Dirprwy Rheolwr Mudaid Meithrin Talaith Y De Ddwyrain**

**Deputy Regional Manager Mudaid Meithrin South East Region**

3.	Welsh Language Commissioner 21.12.21	 3. 20211221 C LL Ymateb Blaenau Gw
4.	Rebecca Good <a href="mailto:Rebecca.Good@estyn.gov.wales">Rebecca.Good@estyn.gov.wales</a> 22.12.21	 4. - ESTYN Response re Blaenau Gwent V
5.	<b>Llywodraeth wyr Ysgol Gymraeg Gwynllyw</b> 3.1.22 11.18am	 CYNLLUN STRATEGOL CYMRAE

Daeth yr Ymgynghoriad i ben am 12pm ar 3 Ionawr 2022, a derbyniwyd yr ymateb isod ar ôl i'r ymgynghoriad gau, fodd bynnag, ystyriwyd yr ymateb a rhoddwyd sylw iddo o fewn y Cynllun Gweithredu 10 mlynedd drafft

Rhif	Enw a Manylion Cyswllt	Disgrifiad o'r Ohebiaeth	Cam Gweithredu/Ymateb sydd ei angen
6.	RhAG 3.1.22 23.55	 5. Sylwadau ar Gynllun Strategol C <sub>3</sub>	